OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 1794

# Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Cymru) 2002

## Rhan III

## APELAU A BENDERFYNIR AR SAIL SYLWADAU YSGRIFENEDIG

**Cyfnewid tystiolaeth**

**8.**—(1) Yn ychwanegol at unrhyw ddogfennau a anfonwyd eisoes at y Cynulliad Cenedlaethol gan yr apelydd yn unol â rheoliad 6 o Reoliadau Mapiau Dros Dro (mewn achos o apêl o dan adran 6 o'r Ddeddf), a chan yr atebydd yn unol â rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn, rhaid i'r apelydd a'r atebydd, o fewn 6 wythnos o'r dyddiad cychwyn, anfon at y Cynulliad Cenedlaethol ddau gopi o unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach neu ddogfennau eraill y maent yn dymuno dibynnu arnynt, neu, os nad ydynt yn dymuno dibynnu ar unrhyw sylwadau pellach o'r fath neu ddogfennau eraill, hysbysiad i'r perwyl hwnnw.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn gynted ag y mae'n ymarferol ar ôl cael unrhyw sylwadau pellach, dogfennau eraill neu hysbysiadau yn unol â pharagraff (1), anfon copi o'r sylwadau, y dogfennau neu'r hysbysiadau hynny at yr apelydd neu'r atebydd, fel y bo'n briodol.

(3) Rhaid i'r apelydd a'r atebydd, o fewn 9 wythnos o'r dyddiad cychwyn, anfon at y Cynulliad Cenedlaethol ddau gopi o unrhyw sylwadau pellach, dogfennau eraill neu hysbysiadau y maent yn dymuno dibynnu arnynt, neu os nad ydynt yn dymuno dibynnu ar unrhyw sylwadau pellach neu ddogfennau eraill, hysbysiad i'r perwyl hwnnw.

(4) Pan fydd sylwadau wedi'u gwneud i'r Cynulliad Cenedlaethol gan unrhyw un heblaw'r apelydd neu'r atebydd, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn gynted ag y mae'n ymarferol ar ôl cael y sylwadau hynny, anfon copi ohonynt at yr apelydd a'r atebydd, a rhaid iddynt, os ydynt yn dymuno cyflwyno unrhyw sylwadau ar y sylwadau hynny i'r Cynulliad Cenedlaethol, anfon dau gopi o'u sylwadau i'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn 9 wythnos o'r dyddiad cychwyn.

(5) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol, mewn achos penodol, wahodd yr apelydd a'r atebydd i anfon at y Cynulliad Cenedlaethol ac at ei gilydd, o fewn yr amser rhesymol hwnnw y gall ei bennu, sylwadau pellach neu ddogfennau eraill y mae o'r farn eu bod yn angenrheidiol er mwyn galluogi'r apêl i gael ei phenderfynu.